**GORCHYMYN CYNGOR SIR PENFRO**
**(MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD) (CYDGRYNHOI) 2011**
**(GORCHYMYN AMRYWIO RHIF 14 2023)**

Mae Cyngor Sir Penfro, wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 32 a 35 ac Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Deddf 1984") ac fel y'i diwygiwyd, a darpariaethau Deddf Rheoli Traffig 2004 a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, yn unol ag Atodlen 9 i Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y gorchymyn a ganlyn:-

Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 3ydd Ebrill 2023 a gellir ei ddyfynnu fel Gorchymyn Cyngor Sir Penfro (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2011 (Gorchymyn Amrywio Rhif 14).

Bydd yr Atodlen ("yr Atodlen") i Orchymyn Cyngor Sir Penfro (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2011, a ddaeth i rym ar 1 Chwefror 2011, yn cael ei amrywio er mwyn cynnwys y canlynol:-

1. Cyflwyno maes parcio newydd yng Ngholofn 2 o'r Atodlen yn y man parcio â rhif 22A.

**ATODLEN 1**

| Eitem | Enw'r man parcio | Safle lle gall cerbyd aros | Dosbarth y cerbyd | Oriau a dyddiau gweithredu'r man parcio a'r cyfnod codi tâl | Uchafswm y cyfnod y caiff cerbyd aros | Newidiadau a/neu Daliadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| [1] | [2] | [3] | [4] | [5] | [6] | [7] |
| 22A | Neuadd y Sir, Hwlffordd | Yn gyfan gwbl o fewn cilfan barcio | 1,2,3,4,5 | Deiliaid trwyddedau parcio Neuadd y Sir yn unig 7am-5pm Dydd Llun-Dydd Gwener<br><br>Cyfnod Codi Tâl Deiliaid Trwyddedau<br><br>5pm-7pm Dydd Llun - Dydd Gwener<br>9am - 7pm ar Ddydd Sadwrn / Dydd Sul / Gŵyl y Banc | 24 awr a deiliaid trwyddedau parcio | Deiliaid trwyddedau parcio Neuadd y Sir<br><br>Talu ac Arddangos<br>1 awr - £1.00<br>2 awr - £2.00<br>4 awr - £3.00<br>Drwy'r dydd - £4.00 |

**Dyma ddosbarthiadau'r cerbydau y cyfeirir atynt uchod:**
**Dosbarthiadau cerbydau**

1 Beiciau modur unigol
2 Cerbydau cofrestredig i'r anabl
3 Ceir modur

4 Cyfuniadau o feiciau modur
5 Cerbydau modur sydd â phwysau cerbyd gros o lai na 3.5 tunnell neu sy'n llai na 5.5 metr o hyd

6 Ôl-gerbydau
7 Carafanau
8 Cerbydau modur sydd â phwysau cerbyd gros o fwy na 3.5 tunnell ac sy'n fwy na 5.5 metr o hyd
9 Coetsys
10 Cychod a/neu ôl-gerbydau cychod sy'n llai na 3.5 tunnell neu 5.5 metr o hyd
11 Cychod a/neu ôl-gerbydau cychod sydd dros 3.5 tunnell neu 5.5 metr o hyd

**RHODDIR** o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro yr 8f Dydd hwn o Fawrth Dwy Fil a thair ar hugain

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN**

**CYNGOR SIR PENFRO**

ym mhresenoldeb:-

SAMUEL PITCHFORD

Llofnodwr Awdurdodedig

PEMBROKESHIRE COUNTY COUNCIL

10576